Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu |
| Lleoliad: | Pencadlys yr Heddlu |
| Dyddiad: | 20 Gorffennaf 2016 |
| Amser: | 10:00 – 13:00 |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Liane James (DBG/DD)<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Pam Kelly (PGC)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Prif Arolygydd Jon Cummings, Arolygu ac Adolygu'r Heddlu (JC)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Perfformiad, SCHTh (SR)<br>Dr Helen Morgan-Howard, Prosiect Llywodraethu Corfforaethol (HM-H) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 20/07/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y penderfyniad** | **Crynodeb o'r penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PAB T2 01** | **Bydd cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n cael eu cynnal ar sail chwarterol, ar drydedd wythnos y mis perthnasol, gyda phapurau'n cael eu derbyn gan yr Heddlu wythnos ymlaen llaw lle bo hynny'n bosibl** | **Pawb** |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 15/03/2016 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | Cynnydd: |
| **PAB 308** | **Yr Heddlu i ddarparu data aildroseddu sy'n gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun IOM a'r aelodau IOM sydd yn y carchar erbyn cyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Mai.** | **Rhyddhawyd** |
| **PAB 309** | **Cyflwyno fframweithiau GPS mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol, gan gynnwys asesiadau sicrwydd ansawdd.** | **Rhyddhawyd Adroddiad diweddaru i'w ddarparu** |
| **PAB 310** | **Diweddaru data ynghylch y cynllun gyrru a chymryd cyffuriau a'i roi i'r CHTh, a'i gynnwys mewn unrhyw adroddiadau ar flaenoriaeth 1 yn y dyfodol.** | **Rhyddhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| **PAB 311** | **Rhannu enghreifftiau o DCOau 'heddlu yn unig' a ddefnyddiwyd, ac enghreifftiau o'r gwahaniaeth rhwng datrysiadau cymunedol ieuenctid a gwarediadau cyfiawnder adferol ieuenctid, â SCHTh.** | **Ar waith** |
| **PAB 312** | **Yr heddlu i ddiweddaru data ar droseddau rhyw hanesyddol a throseddau rhyw cyfredol erbyn cyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Mai.** | **Rhyddhawyd I'w gynnwys mewn adroddiadau blaenoriaeth 1 yn y dyfodol** |
| **PAB 313** | **SR i ystyried crynodeb o ddata Stopio a Chwilio yn ôl tiriogaeth, a chynnal cymhariaeth o gyfraddau Stopio a Chwilio positif rhwng heddluoedd ar y Cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio.** | **Rhyddhawyd** |
| **PAB 314** | **Rhannu ystadegau ansawdd ffeiliau achos ar gyfer ffeiliau sy'n cael eu hanfon at GEG â SCHTh.** | **Rhyddhawyd** |
| **PAB 315** | **Cynnwys crynodeb o statws hyfforddiant paratoi ffeiliau achos yn yr adolygiad o wasanaethau cyfiawnder troseddol ar y cyd.** | **Rhyddhawyd** |
| **PAB 316** | **PSA i adfywio pa gyfran o'r costau a wobrwyir drwy Erlyniadau a Arweinir gan yr Heddlu a dderbynnir, a gan hynny, beth sy'n weddill a beth mae'r llysoedd yn gwneud er mwyn mynd ar ôl taliadau.** | **Rhyddhawyd** |
| **PAB 317** | **Cynrychiolydd o'r Heddlu i gysylltu â SCHTh i drafod sut mae dewisiadau dewislen ACR yn cael eu cofnodi i ganiatáu ar gyfer dadansoddi yn y dyfodol.** | **Rhyddhawyd** |
| **PAB 318** | **SR i ddadansoddi'r gyfran o newid dros amser o ran gweithredu'r 10 trosedd rhywiol, ynghyd â chymhariaeth â heddluoedd eraill.** | **Rhyddhawyd** |
| **PAB 319** | **PG i gadarnhau'r model ar gyfer estyn y cynllun brysbennu iechyd meddwl** | **Rhyddhawyd** |

Agorodd y CHTh gyfarfod atebolrwydd cyntaf tymor 2, gan esbonio'r fformat ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Bydd cyfarfodydd y Bwrdd Atebolrwydd yn cael eu cynnal yn chwarterol, ar drydedd wythnos y mis, er mwyn ystyried y cyfeiriad strategol, gyda chyfarfodydd Bwrdd Plismona pythefnosol yn ystyried trafodaethau mwy manwl. Diolchodd y CHTh i staff am eu cyfraniad i'r adroddiadau y gofynnwyd amdanynt ar gyfer y cyfarfod.

**Penderfyniad: Bydd cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n cael eu cynnal ar sail chwarterol, ar drydedd wythnos y mis perthnasol, gyda phapurau'n cael eu derbyn gan yr Heddlu wythnos ymlaen llaw lle bo hynny'n bosibl**

**Cofnodion y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2016 a Materion yn Codi**

Nododd y CHTh y dylai rhifau cyfeirnod camau gweithredu gael PAB o'u blaen yn hytrach na PB.

**Cau camau gweithredu tymor 1 sy'n weddill yn ffurfiol**

PAB 308 - roedd SCHTh wedi derbyn ymateb gan y dadansoddydd IOM. Roedd y CHTh yn fodlon â'r lefel data a ddarparwyd. Esboniodd y PGC bod fformat IOM ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried, a chytunodd i ddiweddaru'r CHTh pan fyddai argymhellion ar gael. Byddai'r diweddariad hefyd yn cynnwys statws cyfredol y datblygiad Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH).

**Cam gweithredu: Cyflwyno diweddariad mewn perthynas â gweithgarwch IOM cyfredol a chynnydd MASH i'r CHTh**

PAB 309 – Roedd y CHTh wedi derbyn adroddiad o fis Tachwedd 2015. Gofynnodd y CHTh am i SCHTh dderbyn copi o adroddiad diweddar cyn cyfarfod Gofyniad Plismona Strategol nesaf yr Heddlu, sydd wedi'i drefnu ar gyfer wythnos nesaf. Roedd y PGC yn ystyried y byddai'n werth chweil i'r CHTh dderbyn gwybodaeth am y mater hefyd.

**Cam gweithredu: Rhoi diweddariad ynglŷn â'r Gofyniad Plismona Strategol i'r CHTh cyn y cyfarfod Gofyniad Plismona Strategol nesaf**

PAB 310 – nododd y CHTh nad yw'r data perfformiad a ddarparwyd yn cynnwys data o ran y cynllun gyrru a chymryd cyffuriau, ond mae'n fodlon nad oes angen y wybodaeth hon ar hyn o bryd.

PAB 311 – nododd y CHTh bod y mater hwn wedi'i godi drwy drafodaethau ehangach ar gyfiawnder adferol o fewn y cyfarfodydd Bwrdd Plismona pythefnosol. Mae'r CHTh yn disgwyl adroddiad ynghylch cynnydd. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â dealltwriaeth y gymuned o ymagweddau cyfiawnder adferol. Gofynnodd y PGC am ddau fis i gynnal gwaith ymchwil cyn adrodd yn ôl i'r CHTh.

**Cam gweithredu: Darparu diweddariad ynghylch ymagweddau Cyfiawnder Adferol o fewn y ddeufis nesaf**

PAB 312 - sylwodd y CHTh nad oedd y cynnydd o ran nifer y troseddau rhywiol sy'n cael eu riportio'n ymwneud ag achosion hanesyddol yn unig. Cadarnhawyd hyn gan y PGC a

ddywedodd bod y data mewn perthynas â throseddau hanesyddol yn dechrau sefyll yn ei unfan, ond roedd pob Heddlu'n profi cynnydd yn nifer yr adroddiadau am droseddau rhywiol o bob math. Dywedodd y PGC bod y data byw ar gael yn ôl y gofyn gan y CHTh, ac awgrymodd y dylid canolbwyntio yn y dyfodol ar sut yr ymdrinnir â dioddefwyr troseddau o'r fath yn ystod eu hachos, gan gynnwys y berthynas ag asiantaethau partner. Cytunodd y CHTh, gan ddweud yr hoffai pe bai data ynghylch troseddau rhywiol yn cael ei gynnwys o fewn adroddiadau perfformiad blaenoriaeth 1.

**Cam Gweithredu: SCHTh i ystyried data perfformiad a phennu pa wybodaeth bellach fyddai angen, ar gyfer cyfathrebu i'r Heddlu erbyn canol mis Medi**

**Cam Gweithredu: Cynnwys troseddau rhywiol ym mlaenoriaeth 1**

PAB 313 – Dywedodd SR bod y pwnc yn cael ei ystyried o fewn y trafodaethau o gwmpas strwythurau llywodraethu yn y dyfodol. Dywedodd y CHTh ei fod yn fodlon â'r data cyfredol o ran Stopio a Chwilio.

PAB 314 – cafodd data diweddar ei gynnwys yn yr adroddiad i'w ystyried yn ddiweddarach yn yr agenda. Dywedodd y CHTh y byddai'r mater hefyd yn cael ei godi yn y cyfarfodydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (BCTLl).

PAB 316 – Rhoddodd y PSA drosolwg o'r drafodaeth wreiddiol. Roedd ymholiad wedi'i godi mewn perthynas â chostau ymgymryd ag erlyniadau a arweinir gan yr heddlu o'i gymharu â'r arian a adenillir ar ddiwedd y broses. Ystyriodd y CHTh y gellir codi hyn yn y BCTLl pe bai angen. Dywedodd y CC bod gwybodaeth yn cael ei monitro ar y costau a bennwyd a dderbyniwyd, a thra bod anawsterau o ran adennill y costau a bennwyd, nid oedd y lefel gyfredol yn achos pryder. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei fonitro gan y PSA a'r CC, a'i godi mewn cyfarfodydd yn y dyfodol pe bai angen.

PAB 317 – Dywedodd MMS bod hyn yn gysylltiedig â PAB 311. Roedd y CHTh yn ystyried y gellir ymdrin â hyn ar lefel weithredol.

PAB 318 – Dywedodd SR nad oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng HDP a Heddluoedd eraill yng Nghymru neu'r heddluoedd tebycaf.

PAB 319 – Dywedodd y PGC bod swyddog wedi'i bennu i'r tîm brysbennu iechyd meddwl yn lle'r swyddog a oedd wedi symud ymlaen, ac roedd banc o swyddogion a oedd wedi derbyn hyfforddiant i lenwi pan oedd angen. Roedd y cynllun wedi'i estyn am 12 mis arall, gydag adolygiadau pellach wedi'u cynnwys. Roedd Adran 136 a charchariadau pobl ifainc wedi lleihau'n sylweddol ledled yr ardal Heddlu. Roedd y tîm brysbennu hefyd wedi ehangu eu gweithgarwch er mwyn darparu gwybodaeth byw mewn perthynas â materion iechyd meddwl i dimoedd sy'n bresennol mewn digwyddiadau eraill, megis ymatebion arfau saethu. Ceisiodd y CHTh sicrwydd bod asiantaethau partner yn ymateb yn briodol i'r newid o ran deddfwriaeth adran 136. Mae'r PG yn disgwyl y bydd y galw ar yr heddlu'n parhau i gynyddu, a mynegodd bryder nad oedd asiantaethau partner yn llawn barod ar gyfer effaith hyn. Holodd y CHTh beth oedd yn cael ei wneud ar lefel weithredol.

Dywedodd y PGC bod galw mynych o ran ymatebion ysbytai'n cael eu hystyried mewn digwyddiadau perfformiad a gorchwyl lleol, gyda Phrif Arolygwyr mewn cysylltiad yn lleol â phenaethiaid wardiau unedau iechyd meddwl. Roedd cynrychiolwyr o HDP yn bresennol mewn byrddau iechyd meddwl amlasiantaeth. Dywedodd y PGC bod angen trafod hyn mewn cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a bod gwaith yn digwydd ar gyfer casglu tystiolaeth am alw ar gyfer gwella'r trafodaethau hyn. Cododd y CHTh y mater o alw ar adnoddau. Cadarnhaodd y PGC bod diffyg gwelyau o fewn y gwasanaeth iechyd meddwl wedi arwain at gynnydd o ran galw ar yr heddlu gan fod angen i swyddogion fynd ag unigolion i'r gwely sydd ar gael yn hytrach na'u trosglwyddo i'r uned iechyd meddwl agosaf. Roedd angen Cytundebau Lefel Gwasanaeth er mwyn cytuno sut y bydd y Concordat Iechyd Meddwl yn cael ei wireddu. Awgrymodd y CHTh y dylai gael ei gynnwys mewn trafodaethau strategol o gwmpas y mater hwn.

**Sicrwydd**

***Egwyddorion gweithgarwch sicrwydd***

Rhoddodd y CHTh drosolwg o'r ddogfen ganllaw ddrafft, gan wahodd sylwadau ac adborth gan yr Heddlu. Roedd y PG yn ystyried ei fod yn ddatblygiad positif. Gofynnodd y CHTh i'r aelodau ystyried y ddogfen ar ôl y cyfarfod a chyflwyno adborth i SCHTh. Bydd diweddariad hefyd yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf.

Holodd y DBG pa un ai a ddylid ail-labelu craffu yn sicrhau ansawdd er mwyn gwella prynu i mewn a gwneud y ffocws yn fwy cadarnhaol. Derbyniodd y CHTh y cynnig, ond roedd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y CHTh yn bodloni ei swyddogaethau statudol, sef craffu a dal y PG i gyfrif.

Roedd y PGC yn ystyried y byddai'n ddefnyddiol i'r Heddlu a SCHTh gydweithio er mwyn nodi meysydd ar gyfer eu hadolygu i gynnal gwelliannau. Adleisiwyd hyn gan y PG a awgrymodd y dylid cynnwys partneriaid allanol lle bo hynny'n addas, er mwyn gwella'r adolygiadau. Dywedodd y CHTh bod angen ystyried hyn yn ofalus. Dywedodd SR y byddai'r PG a'r CHTh yn cytuno ar flaenraglen waith ar gyfer gweithgarwch sicrwydd cyn gweithredu, ond byddai angen cytuno ar fecanwaith ar gyfer ymdrin â materion ad hoc hefyd.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â threfniadau llywodraethu interim cyn penodi'r Prif Gwnstabl newydd. Cytunwyd bod angen sicrhau bod strwythurau llywodraethu priodol er mwyn cefnogi penderfynu, gan ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer y darpar Brif Gwnstabl i wneud unrhyw newidiadau mae'n teimlo sy'n addas. Dywedodd y CHTh y dylid cynnwys ei swyddfa mewn trafodaethau ynglŷn â threfniadau strwythur llywodraethu newydd yr Heddlu. Tynnodd y CHTh sylw at y Bwrdd Ystadau fel enghraifft o strwythur llywodraethu a oedd angen cytundeb di-oed er mwyn cyflenwi'r rhaglen waith. Mynegodd y CHTh ei rwystredigaeth o ran yr achos busnes llety sy'n aros, a geisiwyd sawl mis yn ôl.

Awgrymodd y PGC y dylid drafftio amserlen o benderfyniadau allweddol er mwyn cefnogi trefnu gwaith paratoadol. Cytunodd y CHTh i hyn.

**Cam gweithredu: Rhoi amserlen o ran pryd y mae angen i'r CHTh wneud penderfyniadau allweddol i'r Heddlu er mwyn cefnogi prosesau cynllunio**

***Strwythurau llywodraethu***

Diolchodd y DBG i HM-H a Paul Morris am eu gwaith o ran datblygu'r model llywodraethu a'r cylch gorchwyl sydd wedi'i rannu â'r CHTh. Mae digwyddiad ymgynghori gydag uwch arweinwyr wedi'i drefnu ar gyfer 2 Awst. Holodd y CHTh pa un ai a oedd cynlluniau i gynnwys barn gweddill y gweithlu. Cadarnhaodd y DBG y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn dilyn ymgynghoriad yr uwch arweinwyr. Roedd ymgynghori hyd yn hyn wedi tynnu'r sylw at yr angen am gynllun cyflenwi heddlu a throsedd, gan gynnwys yr amcanion a'r blaenoriaethau strategol, gan amlinellu rolau a chyfrifoldebau'n glir. Roedd adborth hefyd wedi'i dderbyn mewn perthynas â phenderfyniadau cyfathrebu. Gofynnwyd i'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol i adolygu safle mewnrwyd yr Heddlu. Dywedodd y CHTh y dylai gwaith rhwng yr Heddlu a SCHTh gael ei gydweddu er mwyn osgoi dyblygu. Cadarnhaodd SR a HM-H eu bod nhw'n cyfathrebu ynglŷn â'r mater. Rhoddodd y DBG drosolwg o'r strwythurau a'r cylch cynllunio drafft, ac awgrymodd y dylid trefnu cyfarfod ar wahân rhwng uwch arweinwyr yr heddlu a'r CHTh er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen. Cytunodd y CHTh i hyn. Esboniodd HM-H y broses ar gyfer penderfynu a chynnydd o ran risg yn y grwpiau amrywiol. Holodd y CHTh pa un ai a oedd cynllun cyflwyno'n bodoli. Cadarnhaodd HM-H nad oedd cynllun o'r fath ar gael.

**Perfformiad cyfredol yr Heddlu yn erbyn blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu 2013-2018, gan gynnwys crynodeb o feysydd ffocws yr Heddlu**

Gan fod y diweddariad o ran blaenoriaeth 5 wedi'i dderbyn yn agos i'r cyfarfod, dywedodd y CHTh y byddai'n cael ei ystyried, gydag unrhyw ymholiadau'n cael eu codi y tu allan i'r cyfarfod.

Nododd y CHTh bod y cynnydd o ran cyfanswm y troseddau a gyflawnwyd wedi'i briodoli i gyflwyno cofnodi troseddau cywir. Fodd bynnag, nododd y CHTh gynnydd o 10% i 15% o fis Mai 2015 i fis Mai 2016. Nid oedd y CHTh yn teimlo y gellir priodoli hyn i well safonau cofnodi troseddau. Roedd y PGC yn ystyried bod nifer o ffactorau'n dylanwadu ar y ffigurau, gan gynnwys cynnydd o ran adrodd am droseddau rhywiol hanesyddol, a chynnydd o ran troseddau treisgar yn cael eu cysylltu â chynnydd o ran adrodd am gam-drin domestig. Dywedodd y PGC bod ansawdd y gwasanaeth h.y. cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer Dioddefwyr, oedi o ran rheoli mechnïaeth a dadansoddiad ffôn yn haeddu ystyriaeth er mwyn deall perfformiad cyffredinol. Dywedodd y CHTh bod 18 mis wedi mynd heibio ers i arferion cofnodi newid, ac felly nid oedd hyn yn rheswm realistig ar gyfer y cynnydd bellach. Roedd y PG yn cydnabod hyn, fodd bynnag, dywedodd y byddai

gwelliant yn raddol yn ystod y flwyddyn gyntaf. Dywedodd SR bod y ffigurau'n dilyn patrwm tebyg i llynedd, er waetha'r cynnydd. Mynegodd y CHTh ddiddordeb mewn deall yr ymateb gweithredol i'r cynnydd o ran riportio. Cynigiodd y PGC ddarparu gwybodaeth a rannwyd mewn digwyddiadau gorchwyl a pherfformiad lleol. Dywedodd y PGC bod angen sylw pellach i'r ymateb amlasiantaeth i reoli troseddwyr a dioddefwyr mynych.

Ceisiodd y CHTh wybodaeth bellach o ran y cynnydd yn nifer y digwyddiadau domestig, yn arbennig yn nifer y dioddefwyr mynych. Dywedodd y PGC bod tua 12% - 15% o ddioddefwyr cam-drin domestig yn ddioddefwyr mynych, ond roedd y ffigwr cyfredol dros 20%. Roedd y cynnydd hwn yn cymharu â'r heddluoedd mwyaf tebyg. Roedd gwaith yn parhau gydag asiantaethau lleol i gefnogi pobl sy'n agored i niwed, ac roedd Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg nawr yn cael eu peilota ar sail ddyddiol yn hytrach na misol. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r rhesymau dros y cynnydd o ran troseddau, gydag awgrym y gall hyn ymwneud â chynnydd o ran hyder i riportio troseddau, ond nid oes ymchwil i gefnogi hyn eto. Dywedodd y CHTh nad yw cyfanswm y troseddau a gofnodwyd yn arwydd da o ansawdd gwasanaeth, ac ni fyddai'n gosod targedau i HDP leihau trosedd o ganran penodol. Dywedodd ei fod am i'r Heddlu ddeall y newidiadau yn y dirwedd droseddu a newidiadau sy'n codi yn y proffil galw. Byddai angen cyfathrebu hyn i'r cyhoedd hefyd. Dywedodd y PGC fod angen ymateb yr Heddlu ar gyfer galwadau categori 1 a 2 wedi cynyddu dros amser, yn arbennig y galwadau gan asiantaethau eraill sy'n gofyn am bresenoldeb yr Heddlu. Dywedodd y PGC na ellir defnyddio hyder o ran riportio fel y rheswm dros y cynnydd yn nifer y troseddau a gofnodir bellach. Croesawodd y CHTh y sylw hwn.

Dywedodd y CHTh bod y galw o ran galwadau am wasanaeth gan ysbytai yn Sir Gaerfyrddin yn arwyddocaol, ac ystyriodd y byddai'n werth dadansoddi'r data ymhellach i ddeall y sefyllfa'n llawn. Cadarnhaodd y PGC bod y treial o ran SCCH yn ysbyty Llanelli'n parhau, a byddai'n cael ei gynnwys yn yr adolygiad bro y disgwylir adroddiad arno ddiwedd Medi. Dywedodd y PGC bod nifer o alwadau am wasanaeth yn cael eu derbyn gan wardiau iechyd meddwl mewn ysbytai mewn perthynas â chleifion sy'n agored i niwed, trais ac unigolion coll. Awgrymodd y PGC y dylid ystyried y seilwaith plismona megis teledu cylch cyfyng a systemau adnabod rhifau ceir yn awtomatig o gwmpas ysbytai. Cydnabu'r PG hyn, gan ddweud bod ysbytai bellach yn cael eu hystyried yn gymuned er mwyn ystyried sut y gall yr heddlu ymateb orau i'r galw am wasanaeth. Awgrymodd y CHTh y dylid ymgysylltu â chynghorau iechyd cymunedol i adolygu'r galw am blismona mewn ysbytai, ac archwilio i'r cyfle i gydweithio.

**Cam gweithredu: Ymgysylltu â Chynghorau Iechyd Cymunedol mewn perthynas â gwerthuso'r treial SCCH yn ysbyty Llanelli ac adolygu'r galw am blismona mewn ysbytai**

Roedd y CHTh yn cydnabod bod ansawdd ffeiliau'n cael eu trafod yn y BCTLl. Holodd y CHTh pa gamau gweithredu oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r cynnydd o ran deunydd nas defnyddiwyd ym mis Ebrill 2016. Dywedodd y PGC mai mater datgelu parhaus oedd hyn. Dywedodd y PGC bod gwaith yn mynd rhagddo, a'i bod yn fodlon bod gwelliannau'n cael eu gwneud. Cydnabu'r CHTh y gwaith da sy'n cael ei wneud, ond

dywedodd y dylid parhau i'w fonitro. Dywedodd y PG bod llawer o'r materion o ran y ffeiliau'n rhai y gellir eu disgwyl, a mynegodd ei rwystredigaeth at adborth GEG ar ansawdd ffeiliau. Roedd y PG yn ystyried bod gan GEG rôl i'w chwarae o ran cefnogi sut y mae achosion yn cael eu cyflwyno. Roedd y CHTh wedi derbyn adborth ym Mwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfun bod HDP yn perfformio'n dda, ac ystyriodd y dylid llongyfarch a chynnal hyn.

Holodd y CHTh am y gwahaniaeth o ran darpariaeth gwasanaeth rhwng galwadau Cymraeg a Saesneg oherwydd roedd wedi cael ar ddeall bod amseroldeb yn broblem. Dywedodd y PG bod hyn yn ymwneud â galwadau 101. Nid oedd yr union ffigurau ar gael ar hyn o bryd; fodd bynnag, dywedodd y PG bod yr amser aros o ran galwadau Cymraeg yn hirach fel arfer na'r amser aros ar gyfer galwadau Saesneg. Cadarnhaodd y PG fod y Gymraeg bellach yn faen prawf hanfodol ar y fanyleb person ar gyfer staff y ganolfan gyfathrebu, a bod Comisiynydd y Gymraeg wedi'i gwahodd i gwrdd â'r PG ym mis Medi er mwyn trafod yr heriau a'r datrysiadau posibl o ran cyflwyno gwasanaeth dwyieithog effeithiol. Roedd y CHTh wedi cwrdd â Chomisiynydd y Gymraeg yn anffurfiol yn ddiweddar, ac roedd hi'n canmol gwaith y sefydliad mewn perthynas â'r Safonau Cymraeg. Dywedodd y CHTh ei fod yn awyddus i sicrhau bod y Safonau'n cael eu bodloni, er y byddai'n her.

**Cam gweithredu: Cynnwys gwybodaeth ynghylch galwadau am wasanaeth yn Gymraeg yn y data perfformiad**

Mynegodd y CHTh bryder bod presenoldeb o ran galwadau ymateb di-oed o fewn y targed 20 munud yn gyson is yng Ngheredigion na'r tair sir arall. Dywedodd y PGC bod hyn wedi'i archwilio'n fanwl, a'i fod yn ymwneud yn bennaf â gwledigrwydd. Roedd y mathau o ffyrdd ac ardaloedd gwledig ym Mhowys a Cheredigion yn arwain at amserau ymateb hirach. Yn ogystal, bu rhai problemau o ran prosesu gyda swyddogion yn methu â chofrestru eu setiau llaw mewn modd amserol ar ôl cyrraedd y lleoliad. Awgrymodd y PGC y gellir newid yr ymagwedd hon os ystyrir ei bod yn flaenoriaeth, ond byddai angen trafodaeth bellach ynglŷn â'r oblygiadau o ran cyllideb. Dywedodd y DBG bod gwelliannau wedi'u gwneud ers y llynedd oherwydd roedd amserau ymateb yn 83%, o'u cymharu â 96% yn gyffredinol eleni. Roedd unedau'n cael eu hanfon yn gynt yn awr - unwaith y derbynnir galwad yn hytrach nag ar ddiwedd yr alwad. Sicrhawyd y CHTh bod amserau ymateb yn gwella, ond nid oedd yn dawel ei feddwl gyda'r esboniad o wledigrwydd, gan ddweud mai heddlu gwledig yw HDP, a dylai lefelau staffio adlewyrchu'n cymunedau gwledig. Nododd y PG mai targed hanesyddol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd y targed o 90% ar gyfer ymateb i alwadau o fewn 20 munud. Mae gan HDP 2.8 swyddog fesul milltir sgwâr. Mae gan yr heddlu prinnaf ei phoblogaeth nesaf, Gogledd Swydd Efrog, 4 swyddog fesul milltir sgwâr. Ystyriodd y PG fod cyflawniad HDP, sef 96%, yn sylweddol ar gyfer unrhyw heddlu gwledig, yn arbennig o'i gymharu ag amserau ymateb y gwasanaeth ambiwlans yn yr ardal Heddlu. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â phwysigrwydd cysondeb o ran darpariaeth gwasanaeth ledled yr ardal Heddlu. Holodd y CHTh ynglŷn â'r tanwariant o bron £0.5 miliwn ar blismona bro yn chwarter cyntaf eleni, gan ddweud bod angen sicrhau lefel ansawdd cyflenwir

gwasanaethau cyson ar gyfer cymunedau gwledig yn ogystal â rhai trefol, gan nodi Llanbedr Pont Steffan a Maesyfed fel enghreifftiau. Dywedodd y CC bod y cyflog cyffredinol ar gyfer swyddogion heddlu'n cyrraedd y targed, ac yn unol â'r llythyr cyllideb gan y CHTh blaenorol ym mis Rhagfyr 2015, roedd tua £800,000 o'r gyllideb staffio wedi'i atal hyd nes y ceir canlyniad yr adolygiad o ariannu fformiwla, a allai leddfu peth o'r pwysau gweithredol a brofir ar hyn o bryd. Holodd y PSA pa un ai a oedd y tanwariant yn cael ei ddal o dan bennawd cyllideb ganolog. Dywedodd y CC mai felly yr oedd hi, a'i fod wedi'i rannu rhwng arbedion ar wariant nad yw'n gyflog, fflyd, a thrwy fod yn fyr o SCCH ar gyfer rhan gyntaf y flwyddyn. Nododd y CHTh bod 12 SCHTh wedi'u hyfforddi'n ddiweddar ac wedi cychwyn ar eu gwaith. Dywedodd y CC bod £303,000 o'r arbedion o £800,000 wedi'i wireddu yng nghyflog swyddogion lleol. Dywedodd y CC fod HDP yn cyrraedd y targed yn gyffredinol o ran niferoedd swyddogion heddlu, a dywedodd bod lleoli wedi'i fwriadu i fod yn hylifol er mwyn ymateb i risg. Mae ymchwiliadau difrifol hefyd wedi effeithio ar leoli, ac ynghyd â dal peth cyllid yn ôl, mae'r sefyllfa wedi'i gwaethygu. Roedd y PG wedi cytuno â'r CC y byddai'r Heddlu'n recriwtio cymaint o swyddogion heddlu ag y gellir eu fforddio o'r gyllideb sydd ar gael. Cytunodd y PG i rannu'r cynllun gweithlu gyda'r CHTh. Roedd y tîm Gwario'n Ddoeth yn ail-lunio'r model gweithredol ar hyn o bryd i i gyd-fynd ag anghenion cymunedau HDP. Byddai hyn yn cael ei ddarparu yn yr hydref er mwyn rhoi cefndir i'r CHTh ar gyfer cefnogi gosod y praesept.

Ceisiodd y CHTh sicrwydd bod ymateb arfog â nifer digonol o staff. Cafodd ei sicrhau gan y PGC mai 6-7 oedd y prinder nawr yn hytrach na 10, bod recriwtio ar agor drwy'r amser, a bod patrymau sifft swyddogion cyfredol wedi'u hestyn ar gyfer y 3 mis nesaf. Roedd y Cyd-uned Arfau Saethu'n cynnal adolygiad i ddeall yr anawsterau o ran recriwtio i'r uned. Roedd amserau ymateb dal yn dda, fodd bynnag, roedd trefniadau gweithredol yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn gwneud gwelliannau lle bo'n bosibl. Roedd y CHTh yn ystyried bod llawer o'r materion a drafodwyd yn ymwneud ag AD strategol, ac roedd angen mwy o ffocws ar y maes hwn. Dywedodd y CHTh ei fod yn disgwyl i'r Heddlu gynllunio ymateb yn y dyfodol i newidiadau a ddisgwylir, er enghraifft, SCCH yn dod yn gwnstabliaid heddlu, a'r bylchau canlyniadol.

**Cam gweithredu: Canolbwyntio ar faterion AD strategol yn ystod y BAH nesaf**

Diolchodd y CHTh i'r Prif Arolygydd Craig Templeton am ei ddiweddariad ynglŷn â gweithgareddau'r tîm Gwario'n Ddoeth, a oedd yn llawn gwybodaeth. Mynegodd y CHTh bryder ynglŷn â'r gostyngiad o 34 cwnstabl fel rhan o foderneiddio'r gweithlu, gan holi pa un ai a fyddai arbedion cost yn cael eu gwireddu, ac ymhle. Dywedodd y CC bod angen yr arbedion ar hyn o bryd i gydbwyso'r gyllideb a osodwyd. Cytunodd y CHTh y dylid moderneiddio'r gweithlu, ond dywedodd fod angen ail-fuddsoddi arbedion yn y sefydliad. Cytunodd y PG, ond dywedodd nad oedd yr Heddlu yn y sefyllfa honno ar hyn o bryd. Yn ogystal, mynegodd y CHTh bryder mewn perthynas â rheolwyr llinell mewn ardaloedd gwledig o ganlyniad i'r bwriad i leihau nifer y rhingylliaid o 34. Cadarnhaodd y CC mai'r bwriad oedd ail-fuddsoddi'r arbedion hyn mewn recriwtio cwnstabliaid newydd. Mynegodd y CHTh ei ddymuniad i gynnal uwch-gynhadledd cynllunio ariannol yn yr hydref, gan gynnwys cyflwyno cynllun AD strategol, i'w gyflwyno gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am AD.

Dywedodd y CHTh bod angen ailddiffinio'r lefel sefydliad darged mewn ymateb i'r dirwedd gymunedol newidiol. Cytunodd y PG, gan ddweud ei fod e'n gyfforddus â gwneud newidiadau i'r cynllun cyfredol o fewn y gyllideb sydd ar gael, a bydd yn penderfynu sut y bydd yr Heddlu'n cyflawni'r deilliannau a osodir.

**Cam gweithredu: Cynnal uwch-gynhadledd ar gyfer cynllunio ariannol a galw yn yr Hydref, gan ganolbwyntio ar faterion AD strategol hefyd**

Esboniodd y CC y rhesymau dros yr oedi o ran gwario ar fideo yn y car. Awgrymwyd y dylid archwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio'r un dechnoleg â'r camerâu fideo a wisgir ar y corff er mwyn symleiddio prosesau a gwireddu effeithlonrwydd cost. Roedd y CHTh yn gwybod am rai o'r cyfleoedd a oedd yn cael eu hystyried. Holodd y CHTh ynghylch y dyddiad ar gyfer gweithredu camerâu fideo a wisgir ar y corff. Dywedodd y CC eu bod yn cael eu caffael ar hyn o bryd, ac y byddent yn eu lle erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Meysydd ffocws SCHTh**

***Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu***

Mynegodd y CHTh ei bryder am y ffaith na fodlonwyd dros ddau dreian o'r ceisiadau am gymorth a wnaed i Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu am gymorth. Dywedodd y CHTh y byddai'r mater yn parhau ar yr agenda ac yn ganolbwynt ei graffu gan nad oedd wedi'i argyhoeddi ar hyn o bryd bod yr £800,000 a delir yn flynyddol i Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu'n cynnig gwerth am arian. Ceisiodd y CHTh farn y PG ynglŷn â hyn. Roedd y PG yn teimlo bod angen ymchwilio i'r mater ymhellach er mwyn deall y rhesymau pan na gafwyd cymorth. Byddai'r PGC yn dod â grŵp at ei gilydd i werthuso'r lefel gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd o'i gymharu â'r gwasanaeth a ddarparwyd yn flaenorol, a pha un ai a oedd yn bodloni angen gweithredol. Gofynnodd y CHTh am i ddata defnydd gael ei gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol pan oedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan hofrennydd yr Heddlu. Roedd y CHTh wedi cyflwyno sylwadau i ddod yn gynrychiolydd rhanbarthol ar gyfer y De Orllewin ar Fwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Ystyriodd y PGC fod angen trafod y mater gyda heddluoedd eraill yng Nghymru er mwyn sefydlu'r lefel gwasanaeth o'i chymharu ag ardaloedd eraill. Awgrymodd CM y dylid codi'r mater yng nghyfarfod nesaf Grŵp Plismona Cymru Gyfan, a chytunodd y CHTh i hyn.

**Cam gweithredu: Cynnal dadansoddiad o lefel gwasanaeth Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu a pha un ai a yw'n bodloni angen gweithredol ac yn darparu gwerth am arian erbyn diwedd Awst**

**Cam gweithredu: Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu i fod yn eitem agenda yng Ngrŵp Plismona Cymru Gyfan fis Hydref**

## *Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (ACEM)*

Darparodd y DBG drosolwg o welliannau a wnaed i baratoadau arolygiadau ACEM, gan ddiolch i dîm Arolygu ac Adolygu'r Heddlu am eu gwaith caled. Darparodd y Prif Arolygydd Jon Cummings drosolwg o gynnydd hyd yn hyn. Roedd y DBG wedi penodi tîm ym mis Hydref 2015 i reoli cysylltiad ACEM â'r Heddlu. Cynhaliwyd yr arolygiad PEEL cyntaf ym mis Mai, gan ddisodli cyfartaledd o 9 arolygiad fesul blwyddyn calendr. Roedd nifer o bwyntiau cadarnhaol wedi'u nodi, ond roedd dal gwaith i'w wneud. Bydd Grŵp Llywodraethu, a fydd yn cael ei gadeirio gan y DBG, yn cychwyn ar 11 Awst ar lefel strategol Aur er mwyn ystyried yr argymhellion sy'n eillio o ACEM. Bydd y cynlluniau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion yn cael eu rheoli gan y Grŵp Llywodraethu. Holodd y CHTh pa un ai a gellir rhannu'r rhain â SCHTh. Cytunodd y PG i hyn. Nododd y DBG bod ACEM yn ystyried cynlluniau HDP ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â'r gweithgarwch cyfredol. Nododd y PGC yr angen i gynllunio ar gyfer y 3-5 mlynedd nesaf. Dywedodd y DBG fod hyn yn cael ei wneud. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â phwysigrwydd hyrwyddo gwaith da'r Heddlu, a rôl y CHTh yn hyn. Mynegodd y CHTh bryder ynghylch y ffaith nad oedd y system Adolygiad o Ddatblygiad Proffesiynol ar gael, gan ddweud bod hyn yn hollbwysig o ran buddsoddi mewn staff. Mae'r CHTh yn edrych ymlaen at fod yn gysylltiedig â phroses archwilio ACEM, a gwirio a phrofi cynnydd yn rheolaidd y tu allan i'r archwiliadau er mwyn ategu agenda ACEM.

Diolchodd y CHTh i JC am ei gyfraniad. Gadawodd JC a HM-H y cyfarfod.

## *Ystadau*

Darparodd y CHTh drosolwg o'r rhaglen waith cyfalaf sylweddol ar gyfer gwella Ystadau HDP. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Gwasanaeth Tân mewn perthynas â chyd-leoli a Chyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas â datrysiad ar gyfer dalfa Sir Gaerfyrddin. Roedd y CHTh yn bwriadu parhau i drafod ystadau mewn cyfarfodydd atebolrwydd er mwyn sicrhau bod datblygiadau allweddol yn cael eu cyflwyno mewn modd amserol. Diolchodd y CHTh i'r Prif Arolygydd Peter Roderick (PR) am ei gyfraniad hyd yn hyn oherwydd deellir bod PR yn symud i brosiect arall. Dywedodd y PGC y byddai'n mynychu'r Bwrdd i gychwyn, gan ddod â chynrychiolwyr gweithredol perthnasol i mewn ar adegau allweddol o'r rhaglen waith. Cydnabu'r PGC y gwaith sylweddol a wnaed o ran y rhaglen dros y flwyddyn ddiwethaf gan y PSA a Heddwyn Thomas, Cyfarwyddwr Ystadau SCHTh. Mynegodd y PGC bryder ynghylch rhai o'r negeseuon sydd ar gael yn gyhoeddus ar hyn o bryd mewn perthynas â'r rhaglen, er enghraifft, negeseuon cymysg o ran pa orsafoedd sy'n cau. Cytunwyd bod angen strategaeth gyfathrebu ar y cyd mewn perthynas â'r rhaglen. Dywedodd y PSA y byddai'r Uwch Reolwr ar gyfer Cyfathrebu Corfforaethol dal yn rhan o'r Bwrdd Ystadau.

**Adroddiad blynyddol SCHTh**

Nododd y CHTh bod yr adroddiad drafft wedi'i ddosbarthu ar gyfer gwybodaeth, ac y byddai'n cael ei rannu â'r Panel Heddlu a Throseddu yn eu cyfarfod ddiwedd yr wythnos. Gofynnodd y CHTh i'r aelodau ystyried yr adroddiad a bwydo unrhyw sylwadau yn ôl i SCHTh erbyn 29 Gorffennaf. Dywedodd y PS y byddai'r cynllun yn cael ei gyhoeddi ganol Awst.

**Cam gweithredu: Unrhyw adborth o ran adroddiad blynyddol SCHTh i'w dderbyn erbyn 29 Gorffennaf**

**Cynnydd tuag at y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd (2016-)**

Darparodd y CHTh drosolwg o'r amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Byddai'r Cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi ddiwedd Mawrth 2017. Tan hynny, glynir wrth y cynllun cyfredol. Dywedodd y CHTh na fyddai arolygon ffurfiol â'r cyhoedd yn cael eu defnyddio, ond anogodd ddeialog parhaus gyda chymunedau er mwyn casglu barn. Tynnodd SR sylw at y fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu sut y mae'r Cynllun yn cael ei ddatblygu, a oedd wedi hysbysu'r amserlen a gyflwynwyd, ynghyd ag amserlen y Panel Heddlu a Throseddu. Byddai'r Cynllun yn cael ei weithredu o 1 Ebrill 2017.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 20/07/2016 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb o'r camau gweithredu | I'w symud yn ei flaen gan |
| **PAB 001** | **Cyflwyno diweddariad mewn perthynas â gweithgarwch IOM cyfredol a chynnydd MASH i'r CHTh** | **PGC** |
| **PAB 002** | **Rhoi diweddariad ynglŷn â'r Gofyniad Plismona Strategol i'r CHTh cyn y cyfarfod Gofyniad Plismona Strategol nesaf** | **DBG** |
| **PAB 003** | **Darparu diweddariad ynghylch ymagweddau Cyfiawnder Adferol o fewn y ddeufis nesaf** | **PGC** |
| **PAB 004** | **SCHTh i ystyried data perfformiad a phennu pa wybodaeth bellach fyddai angen, ar gyfer cyfathrebu i'r Heddlu erbyn canol mis Medi** | **SR** |
| **PAB 005** | **Cynnwys troseddau rhywiol ym mlaenoriaeth 1** | **MMS** |
| **PAB 006** | **Rhoi amserlen o ran pryd y mae angen i'r CHTh wneud penderfyniadau allweddol i'r Heddlu er mwyn cefnogi prosesau cynllunio** | **PS** |
| **PAB 007** | **Ymgysylltu â Chynghorau Iechyd Cymunedol mewn perthynas â gwerthuso'r treial SCCH yn ysbyty Llanelli ac adolygu'r galw am blismona mewn ysbytai** | **PGC** |
| **PAB 008** | **Cynnwys gwybodaeth ynghylch galwadau am wasanaeth yn Gymraeg yn y data perfformiad** | **MMS** |

| | | |
|---|---|---|
| **PAB 009** | **Canolbwyntio ar faterion AD strategol yn ystod y BAH nesaf** | **MMS / PS** |
| **PAB 010** | **Cynnal uwch-gynhadledd ar gyfer cynllunio ariannol a galw yn yr Hydref, gan ganolbwyntio ar faterion AD strategol hefyd** | **CC / PSA** |
| **PAB 011** | **Cynnal dadansoddiad o lefel gwasanaeth Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu a pha un ai a yw'n bodloni angen gweithredol ac yn darparu gwerth am arian erbyn diwedd Awst** | **PGC** |
| **PAB 012** | **Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu i fod yn eitem agenda yng Ngrŵp Plismona Cymru Gyfan fis Hydref** | **PS** |
| **PAB 013** | **Unrhyw adborth o ran adroddiad blynyddol SCHTh i'w dderbyn erbyn 29 Gorffennaf** | **Pawb** |

**Crynodeb Risg**

Cam-drin domestig
Materion AD strategol gan gynnwys adolygiadau o ddatblygiad perfformiad

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

18 Hydref 2016